CYFARFOD: **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**

DYDDIAD: **8 CHWEFROR 2024**

TEITL: **ARBEDION 2024/25**

PWRPAS: **Cyflwyno gwybodaeth am y broses o sefydlu Cynllun Arbedion 2024/25 fel cyfraniad at fwlch cyllidol y Cyngor**

GWEITHREDIAD: **Craffu'r wybodaeth cyn i'r Cabinet ystyried cymeradwyo'r Cynllun Arbedion yn ei gyfarfod ar Chwefror y 20fed**

AELOD CABINET: **Y CYNGHORYDD DYFRIG SIENCYN**

SWYDDOG CYSWLLT: **DAFYDD GIBBARD, PRIF WEITHREDWR**

**1.** Yn ei gyfarfod ar 20 Chwefror bydd y Cabinet yn ystyried yr adroddiad amgaeedig er mwyn dod i gasgliad os yw'n Gynllun Arbedion synhwyrol fel un cyfraniad tuag at y bwlch cyllidol sy'n ein hwynebu yn 2024/25.

**2.** Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried priodoldeb y broses o adnabod yr arbedion, a chyflwyno sylwadau i'r Cabinet eu hystyried cyn dod i benderfyniad.

**3.** Nid rôl y Pwyllgor yw mynegi barn ar beth ddylai maint yr arbedion fod neu rinweddau'r cynigion unigol sy'n cael ei hargymell fel arbedion, ond yn hytrach sicrhau fod y Cabinet yn glir o'r ffeithiau sydd yn cael eu cyflwyno iddynt, fel bod y penderfyniad sydd yn cael ei gymryd yn seiliedig ar wybodaeth gadarn.

**4.** Yn gryno, disgwylir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fodloni ei hun fod y wybodaeth sy'n cael ei gyflwyno yn yr adroddiad yma yn ddigonol i alluogi'r Cabinet wneud penderfyniad ar y Cynllun Arbedion yn ei gyfanrwydd.

**5.** Er enghraifft

- Ydi'r Pwyllgor yn fodlon fod y broses o adnabod yr arbedion a nodir yn Atodiad A yn rhesymol?
- Ydi'r Pwyllgor yn fodlon fod camau rhesymol, o dan amgylchiadau heriol iawn, wedi eu cymryd i lunio'r Cynllun Arbedion?
- Oes modd cael sicrwydd fod yr arbedion a gynigir yn rhesymol a chyraeddadwy neu ydi'r adroddiad yn delio gyda rhagdybiaethau mewn ffordd synhwyrol?
- Ydi'r adroddiad yn glir am oblygiadau y penderfyniad a geisir?
- Ydi'r risgiau yn eglur?

**Atodiad:**
Cynllun Arbedion 2024/25 (adroddiad Cabinet 20/02/2024)